1907-2007 Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Angen mwy o strwythur ar addysg ffoneg i gynorthwyo medrau dysgu cynnar

22 Mehefin 2007

Dylai ysgolion sicrhau bod ffoneg yn cael ei haddysgu mewn modd strwythuredig i blant sy'n dysgu darllen, dywed adroddiad a gyhoeddir gan Estyn heddiw. Gall gwahaniaethau mewn arferion addysgu a chyflymder gwersi effeithio ar gynnydd disgyblion.

Er bod arfer dda eisoes yn bodoli mewn llawer o ysgolion, yr her yw lledu hyn yn ehangach ac yn fwy cyson ledled Cymru. Mae Estyn yn argymell bod ysgolion yn cyflymu addysgu ffoneg yn unol â'r arfer dda a ddisgrifir yn yr adroddiad, gan wneud yn siŵr bod rhaglenni'n cael eu cyflwyno mewn ffordd gyson a strwythuredig.

Nid yw tystiolaeth arolygu yn dangos yn derfynol bod un dull o ddysgu ffoneg yn well na dull arall. Mae gwella ansawdd a chysondeb gwaith ar fedrau darllen cynnar yn unol â'r arfer effeithiol a ddisgrifir yn adroddiad Estyn yn fwy tebygol o godi safonau, na chanolbwyntio ar naill ai hyfforddiant ffoneg synthetig neu ddadansoddol yn unig.

"Mae helpu i gryfhau medrau darllen plant pan fyddant yn ifanc yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt i lwyddo yn ddiweddarach mewn bywyd. O'i chymharu â llawer o wledydd

diwydiannol eraill, mae Cymru'n perfformio'n wael, gyda thua hanner miliwn o oedolion yn cael anawsterau gwirioneddol wrth ddarllen. Mae gwneud yn siŵr bod plant yn llwyddo i ennill medrau darllen pan fyddant yn ifanc yn hanfodol i'w rhagolygon gwaith ac i ddyfodol Cymru", dywed Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod datblygu ymwybyddiaeth plant o sain geiriau a llythrennau ar ei mwyaf effeithiol pan fydd yn rhan o ddull cytbwys sy'n edrych ar bob agwedd ar iaith a llythrennedd. Bydd plant fel arfer yn gwneud yn well wrth ddysgu darllen pan fydd ysgolion yn sicrhau bod gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae Estyn yn argymell bod ysgolion yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu medrau gwrando a siarad i roi seiliau cadarnach i ddisgyblion i ddysgu am iaith a llythrennedd.

Mae asesu'n chwarae rôl allweddol wrth gefnogi datblygiad medrau darllen cynnar. Gall hyn helpu i nodi cryfderau a gwendidau yng nghynnydd disgyblion. Gall athrawon ddefnyddio'r wybodaeth hon i ymyrryd a helpu disgyblion i wneud cynnydd gwell a chynt. Mae Estyn yn argymell bod ysgolion yn asesu medrau disgyblion yn rheolaidd.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae tystiolaeth arolygu'n dangos bod mwy a mwy o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gydag anawsterau siarad a gwrando. Yn aml, ychydig iawn o brofiad y bydd y disgyblion hyn wedi'u cael gartref o hwiangerddi, rhannu straeon neu ganeuon, gyda chyfleoedd prin i ddatblygu eu medrau iaith. Yn yr ysgolion niferus lle sefydlwyd partneriaethau gyda rhieni, mae disgyblion yn cael cefnogaeth werthfawr y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Er bod cyflawniadau mewn darllen wedi gwella yn gyson dros y ddegawd ddiwethaf, mae yna nifer sylweddol o ddisgyblion o hyd yn gwneud cynnydd sy'n rhy araf. Nid yw bechgyn yn gwneud cystal â merched ac mae'r bwlch mewn cyflawniad rhyngddynt yn ehangu. Yn benodol, mae bechgyn yn cael mwy o anhawster gyda rhuglder ac yn aml, mae'n well ganddynt orchwylion mwy egnïol a gweithgar yn gorfforol. Mae Estyn yn

argymell bod ysgolion yn sicrhau bod eu dulliau addysgu yn ennyn diddordeb bechgyn mewn darllen pan fyddant yn ifanc.

Canfu arolygwyr fod ysgolion yn talu sylw amrywiol i ffoneg wrth addysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn aml, bydd mwy o bwyslais ar ddulliau eraill o ddysgu darllen, sy'n syndod, gan fod Cymraeg yn iaith ffonig reolaidd. Gall dysgu fel hyn helpu disgyblion i ddarllen ac ysgrifennu'n gynt gan eu bod yn gallu ennill y medrau sydd eu hangen arnynt i'w helpu i wneud cynnydd gwell. Mae Estyn yn argymell y dylai ysgolion fonitro ac arfarnu dysgu ac addysgu ffoneg mewn Cymraeg fel ail iaith i helpu disgyblion i ddarllen yn y Gymraeg.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Comisiynwyd adroddiad Estyn "Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar" gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cyhoeddir yn www.estyn.gov.uk .

- Cynhaliwyd y gwaith hwn fel rhan o'r cylch gwaith a gafodd Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2006. Mae'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer ymarferwyr ond gall hefyd fod o ddefnydd i rieni.

- Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi'u seilio ar:
    - Ddadansoddiad o ganlyniadau arolygu dros 250 o ysgolion cynradd er 2004;
    - arsylwadau o addysgu darllen mewn 22 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg;
    - cyfweliadau â staff mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg;
    - cyfweliadau ag ymgynghorwyr llythrennedd o ddeg AALl;
    - craffu ar ddogfennaeth a ddarparwyd gan ysgolion ac AALlau; ac
    - adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd gan y Ganolfan Iaith a Llythrennedd Genedlaethol, Prifysgol Reading.
    - Ymweliadau ag ysgolion yn Lloegr a'r Alban.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn

cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464